# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Tachwedd 2023

Amser: 09.32 - 11.04

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13552) yn:

http://senedd.tv/cy/13552

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Jayne Bryant AS<br>Luke Fletcher AS<br>Joel James AS<br>Sam Rowlands AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd<br>Stuart Fitzgerald, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Rhodes, Llywodraeth Cymru<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Catherine Hunt (Clerc)<br>Angharad Era (Dirprwy Glerc)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Jennie Bibbings (Ymchwilydd)<br>Rachael Davies (Ail Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

## 2 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - y Gweinidog Newid Hinsawdd

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio

Sarah Rhodes, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Tai

Stuart Fitzgerald, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cartrefi a Lleoedd

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu amserlen ddangosol ar gyfer cyflwyno Bil yn ymwneud â digartrefedd.

2.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu dadansoddiad o'r 5,575 o dai fforddiadwy newydd a ddarparwyd ers 2021, gan gynnwys faint o'r rhain sy'n cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd i'w rhentu erbyn diwedd tymor y Senedd hon.

2.4 Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn yr uwchgynhadledd sydd ar ddod yn ymwneud â ffosffadau mewn afonydd.

2.5 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu ffigur mewn perthynas â nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun Cymorth i Aros.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan Anabledd Cymru - Cyllideb Ddrafft 2024-25

3.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.2 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

3.2a Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.3 Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad - Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

3.3a Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2.

## 6 Blaenraglen waith

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.